Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau**
—
Welsh Parliament
**Equality, Local Government and Communities Committee**

Dai Lloyd AS

Cadeirydd

Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

8 Mehefin 2020

**Ymchwiliad i Covid-19 a'i effaith: sesiwn dystiolaeth ar bobl hŷn**

Annwyl Dai,

Fel rhan o ymchwiliad parhaus y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau i Covid-19, byddwn yn cynnal sesiynau tystiolaeth amrywiol a fydd yn canolbwyntio ar yr effaith ar grwpiau penodol. Bydd rhan o'n cyfarfod ar 16 Mehefin yn canolbwyntio ar bobl hŷn ac rydym wedi gwahodd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru ac Age Cymru i roi tystiolaeth. Mae'r Comisiynydd wedi cadarnhau y bydd yn bresennol.

Yr effaith ar hawliau dynol pobl hŷn fydd prif ffocws y sesiwn ac o ystyried perthnasedd hyn i gylch gwaith y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon, hoffem eich gwahodd chi neu gynrychiolwyr o'ch Pwyllgor i ymuno â ni ar gyfer y sesiwn honno, sydd wedi'i threfnu ar gyfer 3:00 - 3:45pm ar hyn o bryd. Os ydych chi neu unrhyw aelod arall am ddod i'r sesiwn, gallwch drefnu hyn drwy ein clercod priodol.

Yn gywir,

John

John Griffiths AS

Cadeirydd

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg.

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCymunedau@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCommunities@senedd.wales
0300 200 6565